

HYSBYSIAD STATUDOL I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL UWCHRADD DEWI SANT, SALTNEY, SIR Y FFLINT

CYNGOR SIR Y FFLINT

Hysbysir yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion fod Cyngor Sir y Fflint o Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND ("yr Awdurdod Lleol"), ar ôl ymgynghori â'r unigolion gofynnol, yn bwriadu:-

- **Newid ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Teras Dewi Sant, Saltney, Sir y Fflint, CH4 0AE o 11-18 i 11-16 o 31 Awst 2016 ymlaen.**

Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol.

Cynhaliodd yr Awdurdod Lleol gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig. Mae adroddiad yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion y cynigydd a barn Estyn ar gael ar wefan www.siryfflint.gov.uk, neu gallwch wneud cais am gopi drwy anfon e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk

Bwriedir gweithredu'r newid mewn ystod oedran o 11-18 oed i 11-16 oed yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant ar 31 Awst 2016.

Cynigir fod disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant sy'n dymuno mynychu darpariaeth ôl-16 (chweched dosbarth) yn trosglwyddo i'r ganolfan ôl-16 (chweched dosbarth) yng Ngholeg Cambria, Cei Connah, neu ddarpariaeth addas arall yn unol â dewis y dysgwyr a nifer y lleoedd sydd ar gael.

Nid yw'n ofynnol ystyried trefniadau cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion sy'n Ysgol Uwchradd Dewi Sant ar hyn o bryd ac sy'n trosglwyddo i'r ganolfan ôl-16 (chweched dosbarth) yng Ngholeg Cambria gan nad oes gofyn statudol i ddarparu cludiant i ddysgwyr ôl-16.

Gall unrhyw un wrthod y cynnig cyn pen 28 diwrnod ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynnig, sef erbyn **2 Hydref 2015**.


Dylid anfon gwrthwynebiadau yn ysgrifenedig at Ian Budd, Prif Swyddog – Addysg ac Ieuencid, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND, neu drwy e-bost at 21stcenturyschools@flintshire.gov.uk.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau a wnaed yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac na thynnwyd yn ôl yn ysgrifenedig ynghyd â sylwadau'r Awdurdod Lleol.

O dan Adran 50 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ("y Ddeddf") bydd gofyn i'r cynnig hwn gael cymeradwyaeth y Gweinidog Cymreig p'un a fydd gwrthwynebiadau'n cael eu derbyn ai peidio gan fod y cynnig hwn yn effeithio ar addysg chweched dosbarth.

Cyn pen 35 diwrnod ar ôl i'r cyfnod gwrthwynebu ddod i ben rhaid i'r Awdurdod Lleol anfon copi o'r dogfennau a restrir yn is-adran (4) y Ddeddf i'r Gweinidog Cymreig.

Arwyddwyd

A handwritten signature in black ink that reads "Ian Budd". The signature is written in a cursive style with a large initial 'I'.

Ian Budd
Prif Swyddog – Addysg ac Ieuenctid
Ar ran Cyngor Sir y Fflint

4 Medi 2015

Nodyn Esboniadol

(Nid yw'r nodyn esboniadol hwn yn ffurfio rhan o'r Hysbysiad ond fe'i cynigir fel esboniad)

1. Mae'r Cyngor yn bwriadu newid yr ystod o 11-18 oed i 11-16 oed yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant o 31 Awst 2016 ymlaen. Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol uwchradd gymunedol cyfrwng Saesneg.
2. Mae'r cynnig yn un a nodwyd drwy'r 'Strategaeth Moderneiddio Ysgolion' a gynhaliwyd gan y Cyngor i fynd i'r afael â phroblemau gan gynnwys y Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru), gostwng yr angen am drefniant consortiwm, gostwng amseroedd teithio i ddysgwyr ôl-16.
3. Ar ddyddiad y cyfrifiad ysgolion diwethaf ym mis Ionawr 2015, roedd gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant 422 (Blynyddoedd 7-11) ac 86 (Blynyddoedd 12-13) o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr sef cyfanswm o 508 yn erbyn capasiti o 725 o ddisgyblion llawn amser. Ym mis Ionawr 2015, roedd 217 o leoedd gwag, sy'n cyfateb i 29.93%.
4. Cafodd sail resymegol y cynnig hwn ei nodi yn y ddogfen ymgynghori a gylchredwyd ym mis Mehefin 2015. Mae copïau o'r ddogfen ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir uchod.
5. Mae copi o Bolisi Derbyn Disgyblion y Cyngor ar gael gan y Tîm Derbyn Disgyblion, Addysg ac Ieuenctid yn y cyfeiriad a nodir yn yr Hysbysiad uchod.
6. Mae copi o Bolisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan www.siryfflint.gov.uk
7. Mae'r Hysbysiad hwn yn nodi dechrau cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod o 4 Medi 2015 tan 2 Hydref 2015 ac mae'n nodi'r cyfeiriad ar gyfer anfon gwrthwynebiadau ysgrifenedig.